



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Ministry
of Justice

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-21
i Gomisiynydd y Gymraeg

Tachwedd 2021



Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-21 i Gomisiynydd y Gymraeg

Tachwedd 2021

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Hunanasesiad ydyw o sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi parhau i gyflawni'r ymrwymadau yn ei [Chynllun Iaith Gymraeg 2018](#) (Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'n galluogi pawb sy'n cael gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghymru, neu sy'n cyfathrebu â ni, i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar eu dewis personol.

Mae Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gynllun corfforaethol sy'n cwmpasu meysydd datblygu polisi, recriwtio a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bum Asiantaeth Weithredol (EA) sy'n gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif o'n gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae gan bob un o'n Hasiantaethau Gweithredol eu Cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain sy'n sicrhau darpariaeth o wasanaethau iaith Gymraeg sydd naill ai'n gyfwerth â darpariaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'n rhagori arni. Gan fod pob Asiantaeth Weithredol hefyd yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei hailadrodd yma oni bai ei bod yn berthnasol i adroddiadau corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Crynodeb o'n cyflawniadau

Dyma rai o'r pethau a gyflawnwyd yn ystod 2020-21:

- Mae ymgynghoriadau allweddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael yn Gymraeg ar Hyb Ymgynghori'r Weinyddiaeth ar ein tudalennau GOV.UK 'corfforaethol' ac ar dudalennau 'cyffredinol' GOV.UK
- Mae'r system e-recriwtio Oleeo wedi hysbysebu 190 o ymgyrchoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei hamlygu.
- Cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym manyleb newydd contract leithoedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Cofnododd GLITEM 449 o achosion yn y flwyddyn adrodd lle defnyddiwyd y Gymraeg.
- Mae Cyfryngwyr Cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn parhau i weithredu ar draws pob ardal heddlu yng Nghymru.

- Mae tudalen lanio Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ein gwefan ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy>
- Lanswyd tudalen lanio recriwtio Ynadon yn Gymraeg.
- Mae Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg ffishogol a rhithiol ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac yn ymdrin ag ystod lawn o feysydd busnes y Weinyddiaeth wedi parhau â'i waith.
- Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i gefnogi'r rhaglen Cymraeg Gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyrsiau Cymraeg i staff.
- I gefnogi llwyddiant ein Prawf Effaith ar y Gymraeg ar gyfer swyddogion polisi, cyfieithodd Uned Iaith Gymraeg GLITEM 50 o ddogfennau polisi corfforaethol.

Cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ein cynnydd o ran cyflawni ein camau gweithredu perthnasol parhaus yng nghyswllt y Cynllun Iaith Gymraeg i'w gweld isod er mwyn helpu i ddangos sut rydym yn cydymffurfio.

1. Datblygu a gweithredu polisi

Meini prawf llwyddiant:

- Gwella ymwybyddiaeth staff; gyda gofynion y Cynllun Iaith yn cael eu hystyried yn y broses o gaffael a llunio polisïau.*
- Mae staff polisi, dadansoddi a chyfreithiol yn ystyried goblygiadau o ran yr iaith Gymraeg yn gyson wrth ddatblygu polisïau ac ymgynghori.*

Ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Yn ystod cyfnod adrodd 2020-21, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder nifer o ymgynghoriadau yn Gymraeg a chyhoeddi ymatebion yn Gymraeg fel a ganlyn:

Adolygiad annibynnol o gymorth cyfreithiol troseddol Cais am Dystiolaeth

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Mawrth 2021) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Cynyddu detholiad o ffioedd llysoedd a throthwyon incwm Cymorth gyda Ffioedd yn ôl chwyddiant.

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Mawrth 2021) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Yr Adolygiad Annibynnol o'r Gyfraith Weinyddol

Cafodd yr Adolygiad ei gyfieithu'n llawn (Mawrth 2021) ac mae ar gael ar safle cyffredinol GOV.UK.

Adolygiad Barnwrol: cynigion ar gyfer diwygio. Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o'r Gyfraith Weinyddol.

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Mawrth 2021) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Cafodd Papur Gwyn, ar y cyd â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ei gyfieithu'n llawn ac mae ar gael ar GOV.UK (Ionawr 2021).

Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol: Pecyn o fesurau carlam i ddiwygio'r cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol

Cafodd crynodebau gweithredol yr ymgynghoriad (Rhagfyr 2020) a'r Ymateb (Ebrill 2021) eu cyfieithu ac maent ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol. Cafodd y Cais am Dystiolaeth ei gyfieithu'n llawn (Rhagfyr 2020) ac mae ar gael ar safle cyffredinol GOV.UK.

Cynigion i ddiwygio: Cysoni'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Arian Sifil a Hawliadau Meddiannu Ar-lein ac ar Bapur

Cafodd yr ymgynghoriad (Tachwedd 2020) ar Ymateb (Mawrth 2021) eu cyfieithu yn eu cyfanrwydd ac maent ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar brif safle cyffredinol GOV.UK.

Profiant diwrthwynebiad: mandadu ceisiadau proffesiynol ar-lein

Cafodd crynodeb gweithredol o'r Ymateb ei gyfieithu (Medi 2020) ac mae ar gael ar safle cyffredinol GOV.UK.

Oedran Ymddeol Gorfodol y Farnwriaeth

Cafodd crynodebau gweithredol yr ymgynghoriad (Gorffennaf 2020) a'r Ymateb (Mawrth 2021) eu cyfieithu ac maent ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Adolygiad o'r Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol 2020

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Gorffennaf 2020) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol: Pecyn o fesurau carlam i ddiwygio'r cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol

Cafodd crynodebau gweithredol yr ymgynghoriad (Chwefror 2020) a'r Ymateb (Awst 2020) eu cyfieithu ac maent ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

[Concordat y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Llywodraeth Cymru](#)

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Concordat rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn nodi'r cysylltiadau ar lefel gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n ymdrin â threfniadau ar gyfer ymgynghori a chydweithredu rhwng y cyrff, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth (gan gynnwys y telerau ar gyfer rhannu gwybodaeth), effeithiau cyfiawnder, mynediad at wasanaethau, datrys anghydfodau ac adolygu cysylltiadau. Cafodd y [Concordat](#), dyddiedig 25 Mehefin 2018, ei gyhoeddi yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n gam pwysig ymlaen ar gyfer gwella arferion gweithio, cysylltiadau rhynglywodraethol, a chanlyniadau cyfiawnder i'r ddwy weinyddiaeth.

[Siaradwyr Cymraeg](#)

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn un o chwe adran gyntaf y Llywodraeth i ymrwymo'n gorfforaethol i raglen Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru sy'n ceisio

gwella sgiliau Cymraeg ein staff yng Nghymru. Gan adeiladu ar y ffaith bod GLITEM wedi mabwysiadu Cymraeg Gwaith yn gynnar, rydym yn cydnabod pwysigrwydd integreiddio'r Gymraeg yng ngweithgareddau busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n effeithio ar Gymru o ran ein swyddogaethau corfforaethol yn ogystal â'r gwasanaethau gweithredol a ddarperir gennym.

Eleni, lanswyd Rhwydwaith Cymraeg y Gwasanaeth Sifil. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â cslocalcymruwales@cabinetoffice.gov.uk Mae'n cydnabod y gall cwrdd â tharged Llywodraeth Cymru o 1M o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ddefnyddiol gynnwys adnewyddu'r cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r gweithle.

2. Recriwtio

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi'r farnwriaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.*
- b) *Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn Gymraeg pan fydd angen.*
- c) *Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.*
- d) *Mae system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion Comisiynydd y Gymraeg a deddfwriaeth.*

Staff

Meini prawf llwyddiant: a) *Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi barnwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.* d) *Mae'r system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion a deddfwriaeth Comisiynydd y Gymraeg.*

Rydym wedi hysbysebu 190 o ymgyrchoedd lle cyfeirir at y Cynllun Iaith Gymraeg a lle mae'r gofynion iaith yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Mae 411 o swyddi wedi cael eu llenwi yn yr ymgyrchoedd hyn lle mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Rydym wedi penodi 55 o siaradwyr Cymraeg i swyddi lle'r oedd gofyn am y Gymraeg.

Achosion llys

Meini prawf llwyddiant: b) *Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn effeithiol yn Gymraeg pan fydd angen.*

Drwy fynd ati'n effeithiol i ddod o hyd i farnwyr ac ynadon Cymraeg eu hiaith, a'u recriwtio ar ôl hynny, gellir cynnal achosion llys yn Gymraeg pan fydd angen. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cofnododd GLITEM 449 o achosion lle defnyddiwyd y Gymraeg. Mae'r cyfanswm wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn: Llysoedd y Goron 8, y Llys Apêl (yn eistedd yng Nghymru) 1, Llysoedd Ynadon 90, Gweithdrefn Cyfiawnder Sengl Llys Ynadon nad yw'n ymddangos (SJP) 159, Llysoedd Sirol 191, Tribiwnlysoedd 0.

DS. Mae'r 159 achos SJP yn achosion lle mae Ynad Heddwch a Chynghorydd Cyfreithiol yn delio â'r achos. Achosion moduro ydynt ac fel arfer mae'r diffynnydd wedi pledio'n euog ond wedi gofyn am ddogfennau Cymraeg neu wedi pledio'n euog gan ddefnyddio'r porth Ple ar-lein.

Y farnwriaeth

Meini prawf llwyddiant: c) *Agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.*

Roedd yr ymarferion dethol canlynol yn nodi swyddi gwag yng Nghymru a oedd â gofyniad hanfodol o ran y Gymraeg:

Cofiadur: Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer dwy swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Cofiadur. Lansiodd yr ymarfer cenedlaethol ar 23 Gorffennaf 2019 gyda 121 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Cafodd 121 o ymgeiswyr eu hargymhell ac argymhellwyd bod naw ymgeisydd yn addas i'w penodi i swyddi Cymreig, gan gynnwys un ymgeisydd ar gyfer rôl cyfrwng Gymraeg.

Canfu'r ymarferion dethol canlynol swyddi gwag yng Nghymru nad oedd â gofynion o ran y Gymraeg, ond a oedd yn profi dealltwriaeth ymgeiswyr o weinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru:

Barnwr Rhanbarth: Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Barnwyr Rhanbarth ar 9 Hydref 2019 gyda 75 o swyddi gwag gydag un swydd yng Nghymru. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 24 o ymgeiswyr, ac ni argymhellwyd bod unrhyw ymgeiswyr yn addas i'w penodi ar gyfer y swydd Gymraeg.

Dirprwy Gadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Dirprwy Gadeiryddion Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ar 14 Tachwedd 2019 gyda dwy swydd wag, y ddwy wedi'u lleoli yng Nghymru. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd wedyn bod dau ymgeisydd yn addas i'w penodi.

Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Teulu Dynodedig: Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Teulu Dynodedig ar 21 Ionawr 2020 gyda chwe swydd wag, un yng Nghymru. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd chwech o ymgeiswyr yn gyffredinol, gydag un ymgeisydd yn cael ai argymhell fel unigolyn addas i'w benodi i'r swydd yng Nghymru.

Barnwr Cylchdaith. Lansiodd yr ymarfer cenedlaethol ar gyfer Barnwr Cylchdaith ar 25 Chwefror 2020 gyda 63 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 53 o ymgeiswyr yn gyffredinol, gyda chwe ymgeisydd yn cael eu hargymhell fel unigolyn addas i'w penodi i swyddi yng Nghymru.

Barnwr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf: Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Barnwyr y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar 31 Mawrth 2020 gyda 70 o swyddi gwag (50 ar unwaith a 20 yn y dyfodol) ledled Cymru a Lloegr yn holl siambrau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 70 o ymgeiswyr yn gyffredinol, gyda phedwar ymgeisydd yn cael eu hargymhell fel unigolyn addas i'w penodi i swyddi yng Nghymru.

Barnwr y Tribiwnlys Cyflogaeth: Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Barnwyr y Tribiwnlys Cyflogaeth ar 20 Mai 2020 gyda 25 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 21 o ymgeiswyr gyda dau ymgeisydd yn cael eu hargymhell fel unigolyn addas i'w penodi i swyddi yng Nghymru.

Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl (Caerdydd a Chaer-wynt): Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl (Caerdydd a Chaer-wynt) ar 26 Mai 2020 gyda dwy swydd wag, un ar gyfer Caerdydd ac un ar gyfer Caer-wynt. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb yn y swydd yng Nghaerdydd eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng

Nghymru. Ni argymhellwyd unrhyw ymgeisydd ar gyfer y swydd yng Nghaerdydd, gydag un ymgeisydd yn cael ei argymhell ar gyfer swydd Caer-wynt. Bydd swydd Caerdydd yn cael ei hail-hysbysebu yn 2021-22.

Cadeirydd Cyfreithiol sy'n Derbyn Ffi ar gyfer Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru: Lanswyd yr ymarfer ar gyfer Cadeirydd Cyfreithiol sy'n derbyn Ffi ar gyfer Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ar 3 Medi 2020 gyda naw swydd wag, i gyd wedi'u lleoli yng Nghymru. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd wedyn bod naw ymgeisydd yn addas i'w penodi.

Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol (Cymru a Chanoldir Lloegr: Lanswyd yr ymarfer ar gyfer Barnwr Rhanbarthol Cyflogaeth ar 16 Tachwedd 2020 gyda dwy swydd wag, un ohonynt yng Nghymru. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb yn y swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod un ymgeisydd yn addas i'w benodi i'r swydd yng Nghymru ac un ymgeisydd ar gyfer swydd Canolbarth Lloegr (Gorllewin).

Canfu'r ymarferion dethol canlynol swyddi gwag yng Nghymru nad oedd â gofynion o ran yr iaith Gymraeg, ac nad oedd yn profi dealltwriaeth ymgeiswyr o weinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru:

Aelodau Meddygol sy'n Derbyn Ffi - Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Hawliau Cymdeithasol: Roedd yr ymarfer ar gyfer Aelodau Meddygol sy'n Derbyn Ffi yn cynnwys hyd at 203 o swyddi gwag ac fe'i lanswyd ar 6 Tachwedd 2019. Mae hon yn swydd arbenigol gyda gofynion cymhwyster a gofynion gwybodaeth penodol. Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r meini prawf cymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer y rôl, penderfynodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ychwanegu gwerth pellach at y broses dethol; dewisodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol 202 o ymgeiswyr.

Aelod Arbenigol o'r Tribiwnlys Uchaf sy'n Derbyn Ffi ac a neilltuir i'r Siambr Apeliadau Gweinyddol (awdurdodaeth Datgelu a Gwahardd) a Thribiwnlys Haen Gyntaf y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (awdurdodaeth Safonau Gofal): Roedd yr ymarfer ar gyfer Aelodau Arbenigol sy'n Derbyn Ffi yn cynnwys hyd at 10 o swyddi gwag ac fe'i lanswyd ar 18 Chwefror 2020. Mae hon yn rôl arbenigol a oedd yn galw am wybodaeth fanwl a meini prawf cymhwysedd cyfyngol. Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r meini prawf cymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer y rôl, penderfynodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ychwanegu gwerth pellach at y broses dethol; dewisodd y JAC 10 o ymgeiswyr.

Aelodau Cymwys o ran Anabledd sy'n Derbyn Ffi Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, Siambr Hawl Gymdeithasol (Tribiwnlys Apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant): Roedd yr ymarfer ar gyfer Aelodau Cymwys o ran Anabledd sy'n Derbyn Ffi yn cynnwys hyd at 80 o swyddi gwag ac fe'i lanswyd ar 11 Mawrth 2020. Mae hon yn rôl arbenigol gyda chymhwysedd i ymgeiswyr fod â gwybodaeth am faterion anabledd neu fod yn anabl eu hunain. Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r meini prawf cymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer y rôl, penderfynodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ychwanegu gwerth pellach at y broses dethol; dewisodd y JAC 80 o ymgeiswyr.

Aelodau Ariannol sy'n Derbyn Ffi - Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Hawliau Cymdeithasol: Roedd yr ymarfer ar gyfer Aelodau Arbenigol sy'n Derbyn Ffi yn cynnwys hyd at 17 o swyddi gwag, dwy wedi'u lleoli yng Nghymru ac fe'i lanswyd ar 24 Mawrth 2020. Mae hon yn rôl arbenigol gyda meini prawf cymhwysedd cyfyngedig. Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r meini prawf cymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer y rôl, penderfynodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ychwanegu gwerth pellach at y broses dethol; dewisodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol 12 o ymgeiswyr.

Aelodau Lleyg sy'n Dirfeddianwyr - Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru: Roedd yr ymarfer ar gyfer Aelodau Lleyg sy'n Dirfeddianwyr yn cynnwys tair swydd wag, dwy wedi'u lleoli yng Nghymru ac fe'i lansiodd ar 27 Mai 2020. Mae hon yn rôl arbenigol gyda meini prawf cymhwysedd penodol. Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r meini prawf cymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer y rôl, penderfynodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ychwanegu gwerth pellach at y broses ddeddfol; dewisodd y JAC un ymgeisydd.

Mae Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ofyn am gymorth gan gyrrff cyhoeddus eraill. Cynorthwydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol Lywodraeth Cymru yn yr ymarfer canlynol:

Aelodau'r Panel Addysg sy'n Derbyn Ffi ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC): Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Aelodau'r Panel Addysg sy'n Derbyn Ffi ar gyfer TAAAC ar 15 Hydref 2019 gyda chwe swydd wag. Roedd angen i un ymgeisydd gynnal gwrandawiadau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r pum ymgeisydd a argymhellwyd ar gyfer y rôl yn siarad Cymraeg ar lefel a oedd yn eu galluogi i gynnal gwrandawiadau yn y Gymraeg¹.

D.S. Er bod ymarferion dethol fel arfer wedi dechrau cyn y flwyddyn adrodd, rhoddwyd gwybod i'r Swyddfa Farnwrol am ganlyniad yr ymarferion yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull gweithredu a ddilyniir yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Y Coleg Barnwrol

Cefnogir Bwrdd y Coleg Barnwrol gan Bwyllgor Hyfforddi penodedig Cymru. Cafodd y Pwyllgor ei gadeirio tan fis Ionawr 2021 gan Farnwr Llywyddol Cymru, Mr Ustus Picken, ac ers 12 Ionawr 2021 gan Mr Ustus Griffiths. Rhan bwysig o gylch gwaith y Pwyllgor yw ymgysylltu â GLITEM Cymru ynghylch darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'r farnwriaeth sy'n eistedd yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau bod y Coleg Barnwrol yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae Pwyllgor Hyfforddi Cymru hefyd yn gweithio'n agos â Phwyllgor Cyngor y Barnwyr ar Gymru sy'n cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Brif Ustus.

Cynhelir Seminar Iaith Cymru bob dwy flynedd dan nawdd Pwyllgor Hyfforddi Cymru. Darperir y digwyddiad i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg barnwrol ar bob lefel. Cynhaliwyd y seminar ddiwethaf ym mis Mawrth 2019, fodd bynnag ni fu modd cynnal y digwyddiad y bwriadwyd ei gynnal yn 2021. Mae'r digwyddiad a ohiriwyd bellach yn cael ei gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2022 yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Coleg Barnwrol yn cynhyrchu tri e-fwletin bob blwyddyn sy'n asesu cynnydd cyfraith ddatganoledig ac yn darparu gwybodaeth sydd ar gael i holl farnwriaeth Cymru a Lloegr. Mae'r bwletin yn cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r rhan ar wahân ar gyfer Cymru ar System Rheoli Dysgu digidol y Coleg yn cynnwys opsiynau dwyieithog lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol, ac mae rhywfaint o ddeunydd y llyfrgell bellach ar gael yn Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mae'r Coleg Barnwrol wedi cynhyrchu modiwlau e-ddysgu ar gyfathrebu rhyngddiwylliannol, sydd hefyd yn ymdrin â rhai materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ac mae ar gael i holl ddeiliaid swydd farnwrol ar unrhyw adeg yn y System Rheoli Dysgu.

Pwyllgorau Cyngori a phenodiadau i'r Ynadaeth

¹ Cafodd yr ymarfer hwn ei gynnwys mewn camgymeriad yn adroddiad 2019-20 ond mae wedi cael ei gynnwys yma er cywirdeb gan fod yr ymarfer wedi cael ei adrodd ym mlwyddyn adrodd 2020-21.

Yn ystod 2020-2021, nododd Pwyllgorau Cynghori'r Arglwydd Ganghellor yng Nghymru fod angen recriwtio ynadon i allu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr holl Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru gydag angen penodol ar draws Dyfed Powys a Gogledd Cymru. Yn yr ardal honno, penododd y Pwyllgor Ymgynghorol 4 ynad sy'n siarad Cymraeg i'r llys oedolion. Yng ngweddill Cymru, penodwyd 1 siaradwr Cymraeg arall. Profwyd pob un o'r ymgeiswyr hyn mewn cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd pob cyfweiliad o bell drwy Microsoft Teams.

Defnyddir yr offeryn Lleoli Barnwyr i ganfod faint o ynadon sydd eu hangen. Mae hyn yn ystyried nifer yr ymddeoliadau, yr ymddiswyddiadau disgwylidig fesul ardal a nifer yr eisteddiadau llys a gynlluniwyd. O'r data hwn y pennir canran y siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, cesglir hefyd nifer yr achosion lle siaredir y Gymraeg yn rhannol neu'n llawn yn ystod gwrandawriad llys.

Yn y flwyddyn 2020-2021 hysbysebwyd 33% o swyddi gwag yng Ngogledd Orllewin Cymru a Gogledd Canolbarth Cymru gyda maen prawf 'hanfodol' ar gyfer ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg. Ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion a Sir Benfro hysbysebwyd 20% o swyddi gwag gyda maen prawf 'hanfodol' ar gyfer ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith. Yn Sir Drefaldwyn hysbysebwyd pob swydd wag gyda maen prawf 'dymunol' ar gyfer ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith. Er nad oedd canrannau wedi'u gosod ar draws ardaloedd De Cymru, pwysleisiwyd bod ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu hannog yn gryf i ymgeisio.

Mae Pwyllgorau Cynghori'r Arglwydd Ganghellor wedi nodi bod recriwtio Ynadon sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd-orllewin Cymru-Ynys Môn/Gwynedd a De-orllewin Cymru- Ceredigion/Sir Gaerfyrddin yn faes sy'n peri pryder. Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, bu diffyg ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg o gymharu â nifer y swyddi gwag. Mae hyn wedi'i godi ar lefel ranbarthol (drwy Bwyllgor Sefydlog yr Iaith Gymraeg) ac yn genedlaethol. Ar ben hynny, mae'r mater ar y gofrestr risg. Rydym wedi bod yn ystyried sut y gallwn dargedu mwy o geisiadau gan siaradwr Cymraeg drwy dynnu sylw at yr angen a chanolbwyntio'r ymgyrchoedd yn yr ardaloedd hynny.

Cyfyngwyr Cofrestredig

Drwy gydol 2020-2021, sicrhodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod y Cynllun Cyfyngwyr Tystion (WIS) yn bodloni'r galw cynyddol am ei wasanaethau ac yn addasu i bwysau'n ymwneud â phandemig Covid-19. Llwyddodd y Cynllun i gynnal y nifer uchaf erioed o geisiadau dros y cyfnod hwn, gyda Chyfyngwyr Cofrestredig (RI) yn cynorthwyo mewn dros 7,100 o achosion; roedd bron i 500 ohonynt yn ardaloedd heddluoedd Cymru (PFA).

Mae cyfyngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn parhau i weithredu ar draws pob PFA yng Nghymru; ar hyn o bryd mae pedwar cyfyngwr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn y Cynllun, a 57 cyfyngwr cofrestredig sy'n derbyn achosion yng Nghymru. Mae'r galw am gyfyngwyr cofrestredig yng Nghymru yn cael ei fonitro fel mater o drefn ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cymryd camau i sicrhau bod ceisiadau penodol am gyfyngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cofnodi a bod data am y defnydd o gyfyngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg ar gael ar gais.

Derbyniodd yr NCA 484 cais am gyfyngwyr cofrestredig yng Nghymru yn 2020/21, gyda 98% o'r ceisiadau hyn wedi'u cyfateb yn llwyddiannus. Ni chafodd dau gais (0.4%) eu cyfateb a chafodd saith (1.4%) eu canslo. Gwnaed pedwar cais am gyfyngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg, a chafodd pob un ohonynt ei gyfateb; cafodd dau eu cyfateb â chyfyngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg a chafodd y ddau arall eu paru â chyfyngwr di-Gymraeg gyda chymorth cyfieithydd Cymraeg. Mae ein strategaeth recriwtio yn parhau i flaenoriaethu rhanbarthau lle mae ein tystiolaeth yn dangos bod angen cyfyngwyr cofrestredig fwyaf. Mae sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hystyried ac rydym wedi ymrwmo i archwilio ffyrdd o sicrhau bod cynifer â phosibl o gyfyngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg ar gael.

Er mwyn gwella hygyrchedd yr iaith Gymraeg ymhellach o fewn y Cynllun, rydym yn bwriadu adolygu'r cais presennol am ffurflenni gwasanaeth (a ddefnyddir i gael cyfryngwyr cofrestredig) i sicrhau eu bod yn tynnu sylw'n llawn at y gwasanaethau RI sydd ar gael drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Rydym hefyd wedi sicrhau bod fersiynau Gymraeg o adroddiadau blynyddol WIS a'r fersiwn ddiweddaraf o'r Llawlyfr Trefniadau RI ar gael i'w gweld ar-lein.

Wrth symud ymlaen, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i asesu beth yw'r ffordd orau o wasanaethu anghenion dioddefwyr a thystion sy'n siarad Gymraeg. Byddwn yn adrodd ymhellach ar ein gwaith i gefnogi datblygiad ehangach y Gymraeg o fewn y Cynllun.

3. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Gohebiaeth

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Dim cwynion gan gwsmeriaid yng Nghymru ynglŷn â diffyg eglurder o ran ymdrin â gohebiaeth Gymraeg.*
- b) *Dogfennau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn briodol.*
- c) *Gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlenni ag unrhyw ohebiaeth arall*

Yn ystod cyfnod adrodd 2020-2021, ni dderbyniodd Tîm Cymorth a Gohebiaeth Gweinidogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr un darn o ohebiaeth yn Gymraeg, naill ai ar-lein nac ar ffurf copi caled. Mae swyddogion yn parhau i fonitro lefelau'r ohebiaeth Gymraeg a dderbynnir gan y Tîm Cymorth a Gohebiaeth Gweinidogol, ac mae staff wedi cael eu hatgoffa i gadw cofnod o unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ar y gronfa ddata. Mae hyn yn cynnwys copïau caled a anfonir drwy'r post neu ohebiaeth electronig dros e-bost. Mae staff gohebiaeth ar draws yr adran wedi cael eu hatgoffa hefyd bod angen ateb unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn y Gymraeg yn y Gymraeg.

Galwadau ffôn

Meini prawf llwyddiant:

Bydd galwadau ffôn gan siaradwyr Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg yn y cyswllt cyntaf.

Y Tîm Ymholiadau Cyhoeddus (sy'n rhan o ganolfan alw Cydwasanaethau ehangach yn Ne Cymru) sy'n delio â Llinell Ymholiadau Cyhoeddus (PEL) y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar gyfer galwadau gan bobl sy'n galw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unig. Daw'r galwadau'n bennaf gan bobl sydd am gael eu trosglwyddo i rywun yn y Pencadlys yn 102 Petty France Llundain, fel GLITEM, yr Uned Crwneriaid neu swyddfa'r wasg, er enghraifft. Y cyhoedd neu randdeiliaid allanol, gan gynnwys adrannau eraill y llywodraeth, sy'n gwneud y galwadau hyn fel arfer.

Nid yw'r gweithwyr ffôn ar switsfwrdd y Llinell PEL yn rhoi unrhyw gyngor na gwybodaeth am y Weinyddiaeth Gyfiawnder, dim ond trosglwyddo galwadau i'r person priodol neu roi manylion e-bost ar gyfer blychau post. Rhif Llundain yw rhif y galwadau sy'n cyrraedd tîm y Llinell Ymholiadau Cyhoeddus. Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hysbysebu unrhyw ddewisiadau iaith i'r rheini sy'n galw; fodd bynnag, os bydd rhywun yn dymuno siarad Gymraeg yn unig, mae'r tîm yn gallu delio â'r cais oherwydd bod gan dîm y ganolfan alw Cydwasanaethau 20 siaradwr Gymraeg rhugl.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nid oes galwr wedi ceisio cyfathrebu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gymraeg. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, ni dderbyniodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder unrhyw gwynion am y ffaith nad oes dewis Gymraeg mwy ffurfiol.

Digwyddiadau

Meini prawf llwyddiant:

Dim cwynion ynghylch methu â hwyluso'r defnydd o Gymraeg neu ddarparu cyfieithiadau Cymraeg mewn digwyddiadau yng Nghymru.

Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadw cofnodion canolog o ddiwyddiadau a gynhelir ar draws y busnes ynghylch cyfarfodydd yng Nghymru lle'r oedd trefniadau penodol i hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Ceir arweiniad ar fewnwyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i helpu staff gyda chyfleusterau ac anghenion cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cynnwys y cyhoedd yng Nghymru.

Hunaniaeth gorfforaethol

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae Tîm Cyfathrebu Corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn gweithredu fel arfer o ran gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae tîm dylunio canolog y Weinyddiaeth - design102 - yn defnyddio Uned Iaith Gymraeg GLITEM ar gyfer yr holl waith cyfieithu sydd ei angen ar feysydd busnes y Weinyddiaeth. Mae canllawiau brand y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi cyngor ar ddefnyddio fersiynau Cymraeg a dwyieithog logo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cyhoeddiadau a ffurflenni

Meini prawf llwyddiant:

a) Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

b) Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon, gan ddilyn yr un amserlen pan fo'r dyddiadau cau yn caniatáu hynny.

Pan fydd tîm dylunio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, design102, yn llunio dogfen Saesneg sydd angen ei chyfieithu i'r Gymraeg, bydd yn rhoi ffeiliau sy'n cynnwys y gwaith celf i Uned Iaith Gymraeg GLITEM er mwyn iddynt allu sicrhau bod fformat y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg yr un fath. Gan fod deunyddiau'n aml yn hwyr yn cael eu cymeradwyo, a newidiadau munud olaf yn cael eu gwneud i'r dogfennau Saesneg munud neu fersiynau newydd yn cael eu cyflwyno, nid yw'n bosibl bob amser creu'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg gyda'i gilydd. Serch hynny, bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo modd ar ôl y fersiwn Saesneg (ac yn bendant cyn pen 10 diwrnod gwaith o dan ein Cynllun Iaith). Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon.

Uned Iaith Gymraeg GLIThEM

Uned Iaith Gymraeg GLITEM sy'n gwneud y rhan fwyaf o'n cyfieithiadau corfforaethol. Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 cyfieithodd yr Uned a Cymen 49 o ddogfennau corfforaethol ar gyfer Pencadlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder am gost o £33,940.

Datganiadau i'r wasg, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu, hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Mae GLITEM yn berchen ar lawer o'n cynnwys ar GOV.UK. Mae GLITEM yn cyfieithu popeth sy'n berthnasol i Gymru neu'r iaith Gymraeg. Maen nhw'n cyfieithu newyddion, blogiau a'r canllawiau/cyhoeddiadau rydyn ni'n eu cyhoeddi lle mae angen gan ddefnyddwyr.

Er enghraifft, eleni mae'r rhan fwyaf o'u cynnwys coronafeirws wedi cael ei gyfieithu i'r Gymraeg: [Coronafeirws \(COVID-19\): arweiniad i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-translation-into-welsh)

Gwasanaethau digidol, gwefan a gwybodaeth

Meini prawf llwyddiant:

- a) Llai o gwynion yn ymwneud â diffyg deunydd Cymraeg ar gyfer dogfennau corfforaethol perthnasol.
- b) Argaeledd deunydd Cymraeg priodol ar gyfer ein polisïau a'n cyhoeddiadau.
- c) Systemau TG y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys galluedd Cymraeg.
- d) Paratoi fersiwn Gymraeg o'n tudalen hafan ar GOV.UK.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am benderfynu pa gynnwys 'adrannol a pholisi' sydd angen ei gyfieithu ar GOV.UK; trefnu cyfieithu o ansawdd uchel; a sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn gywir ac yn gyfoes.

Mae tudalen lanio Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ein gwefan ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/cy>

Mae ein hafan Gymraeg ar GOV.UK gyda'n tudalennau 'corfforaethol' cysylltiedig, sydd hefyd wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Rydym wedi gwneud newid yn ddiweddar o ran sut rydym yn rheoli cyhoeddiadau wedi'u cyfieithu ar GOV.UK – mae hyn wedi golygu ein bod yn llwytho cyfieithiadau i fyny mewn ffordd wahanol, gan eu gwneud yn fwy hygyrch ac yn haws dod o hyd iddynt. Yn fyr, yn lle ychwanegu dogfen Gymraeg at dudalen Saesneg o gynnwys, bydd gan y fersiwn Gymraeg ei thudalen ei hun. Dyma rai enghreifftiau sy'n dangos fersiwn Gymraeg lawn o'r dudalen gyda'r dogfennau Cymraeg a Saesneg arni. Yn y gorffennol, dim ond ar nifer fach o dempledi yr oedd y swyddogaeth hon ar gael, ond mae bellach ar gael ar gyhoeddiadau:

Er enghraifft:

Concordat ar fenywod mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o hynny (Ionawr 2021)

<https://www.gov.uk/government/publications/concordat-on-women-in-or-at-risk-of-contact-with-the-criminal-justice-system/cy>

Strategaeth Rheoli Troseddwyr Integredig: Strategaeth ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref i adnewyddu Rheolaeth Troseddwyr Integredig (Rhagfyr 2020).

<https://www.gov.uk/government/publications/integrated-offender-management-strategy/cy>

Datganiad Iaith Gymraeg yr Awdurdod Monitro Annibynnol (Tachwedd 2020)

[Datganiad Iaith Gymraeg - Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion \(ima-citizensrights.org.uk\)](https://www.ima-citizensrights.org.uk/)

Mae gennym frandio Cymraeg ar ddeunydd ysgrifennu, adroddiadau, logos a gohebiaeth electronig sy'n effeithiol o ran anghenion a galw defnyddwyr.

Dyma safbwynt Gwasanaeth Technoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar dechnoleg iaith Gymraeg:

- wrth inni ddatblygu a chyflwyno cynnyrch a systemau TG newydd neu ddiweddarau hen rai, byddwn yn asesu'r gofynion ieithyddol yng nghyswllt gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru;
- byddwn yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg cyn belled ag y bo'n briodol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol;
- pan fyddwn yn datblygu neu'n caffael systemau Gwasanaeth Technoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Comisiynydd y Gymraeg ar Feddalwedd Dwyieithog;
- y maes busnes perthnasol sy'n gyfrifol am gynnwys llwyfannau TG (yn hytrach na'r dechnoleg gysylltiedig).

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol pryd bynnag y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn symud at gontractau newydd. Mae Gwasanaeth Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth bob amser yn barod i ystyried unrhyw ofynion penodol sydd gan yr Uned Iaith Gymraeg.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan bartion eraill

Meini prawf llwyddiant:

Bod staff yn ymwybodol o'r trefniadau i gynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg mewn cytundebau contract â thrydydd partiön.

Mae telerau ac amodau contract safonol cyfredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys cymalau sy'n mynnu bod cyflenwyr yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynllun Iaith Gymraeg 'yn union fel petai ef ei hun yw'r Awdurdod'.

Contract Gwasanaethau Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd:

Mae'r contractau gwasanaethau iaith yn parhau i ddarparu ar gyfer cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn Gymraeg yn yr un modd ag y darperir ar gyfer pob iaith arall. Cafodd yr iaith Gymraeg ei chynnwys yn y fanyleb ar gyfer pob un o'r contractau fel un o'r ieithoedd y mae'n ofynnol i'r cyflenwyr ddarparu gweithwyr iaith proffesiynol ar eu cyfer. Bu cydweithio agos rhwng y tîm contractau, y tîm iaith Gymraeg corfforaethol a'r Uned Iaith Gymraeg yn ystod y broses dendro gan sicrhau bod manyleb contract ieithoedd newydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys llinellau a manylion priodol ar yr iaith Gymraeg a'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Roedd tri chymal penodol wedi'u cynnwys ym manyleb y contract, sef: i) bod angen i'r cyflenwr gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg a Chynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel petai ef ei hun yw'r Awdurdod yn darparu ei wasanaethau; ii) Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gorfforaethol yn disgwyl defnyddio Uned Gyfieithu Gymraeg GLITEM ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yng Nghymru; a iii) rhaid i bob gwaith gael ei wneud gan aelodau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Cafodd contract ieithoedd newydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Lot 2, cyfieithiadau) ei ddyfarnu i thebigword.

[thebigword](#)

Mae ystadegau ynglŷn â'r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yn rhan o Ystadegau chwarterol y Llysoedd Troseddol sydd ar gael ar wefan GOV.UK yma:

[Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Mis Hydref i fis Rhagfyr 2020 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Contract ar gyfer darparu Swyddi Cyflogaeth i Garcharorion yng Ngharchar EM Berwyn

Nod y contract yw darparu 520 o swyddi cyflogaeth i garcharorion mewn gweithdai o fath diwydiannol. Mae gofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi cael eu hymgorffori yn y contract, ac mae'r Tîm Rheoli Contractau yn profi ac yn goruchwyllo'r rhain yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Mae'r iaith Gymraeg hefyd wedi cael ei hystyried ym mhob maes arloesedd/datblygu. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi ymgysylltu â'r prawf cydymffurfio ehangach ar safle'r carchar.

CEM Berwyn – Dysgu a Sgiliau (2016 – 2023)

Mae'r ddarpariaeth Dysgu a Sgiliau yn darparu dysgu wedi'i sefydlu yng Ngharchar EM Berwyn. Caiff pob carcharor ei asesu i bennu ei anghenion dysgu a'i ddyrannu (ar sail y cytunir arni) i'r ardal briodol yn y carchar y dylai'r carcharorion weithio ynddi. Y prif nod yw datblygu sgiliau'r carcharor i baratoi ar gyfer cyflogaeth ar ôl ei ryddhau er mwyn cefnogi adsefydlu. Rhaid i'r contractwr bob amser gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod yn union fel petai ef ei hun yw'r Awdurdod, i'r graddau fod yr un pethau'n berthnasol wrth ddarparu'r Gwasanaethau. Y Contractwr sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau yn Gymraeg neu yn Saesneg i'r dysgwyr.

Grant Cyllid Craidd i Ferched (2020 – 2021)

Dyfarnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei Grant Cyllid Craidd i Ferched gwerth £2.5m ym mis Tachwedd 2020. Nod y grant cyllid craidd oedd cynyddu sefydlogrwydd ar draws y sector menywod drwy gymorth cyllid craidd. Roedd y rhaglen grant yn agored i bob mudiad gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol (VCSE) yng Nghymru a Lloegr. Rhoddwyd un grant (gwerth £46k) yng Nghymru ac mae cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn un o ofynion amodau cyllido'r Cytundeb Grant.

Rhaglen Hyfforddiant Achrededig y Gegin NFN gyda The Clink (Gweithredu ym mis Ebrill 2021)

Bydd The Clink yn gweithio gyda staff a rheolwyr arlwygo carchardai mewn ceginau i ddarparu hyfforddiant i alluogi carcharorion i ennill cymwysterau hylendid bwyd, arlwygo a chymwysterau eraill i'w helpu i gael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau. Bydd The Clink yn hwyluso cyfweiliadau am swyddi gyda graddedigion cymwys gyda'u rhwydwaith o dros 280 o gyflogwyr. Mae gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori o fewn telerau ac amodau'r contract sydd i'w gyflawni ar draws 70 o safleoedd dros 3 blynedd.

Contract Llinell Dalu Genedlaethol:

Dyfarnwyd y contract hwn ym mis Tachwedd 2020 i BT plc. Gweithredwyd contract dyfarnu uniongyrchol newydd drwy ddefnyddio fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron. Mae'r gofynion gwasanaeth yn cynnwys darparu llinell ffôn benodol yn y Gymraeg ac yn Saesneg, gydag asiantau sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Mae'r gwasanaeth talu awtomataidd hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Dyrannu grantiau

Meini prawf llwyddiant:

Caiff grantiau eu dyfarnu yn unol â'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun

Disgwylir i unrhyw sefydliad sy'n ymgeisio am grant ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys cyflenwi gwasanaethau i bobl yng Nghymru ymdrin yn eu ceisiadau, lle bo hynny'n briodol, â sut y bwriadant ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Yna bydd hyn yn cael ei gynnwys fel un o'r amodau cyllido.

Er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn a bod gwariant grant yn sicrhau gwerth am arian, sefydlodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder swyddogaeth her (y Panel Herio Grantiau) ym mis Hydref 2017. Mae'r Panel, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Swyddogaeth Rheoli Grantiau'r Llywodraeth Swyddfa'r Cabinet yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch sefydlu grantiau newydd ac adolygu'r grantiau sy'n bodoli eisoes.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a Bwrdd Grantiau Tystion a Dioddefwyr yn goruchwyllo'r prosesau ar gyfer dyrannu grantiau yn eu meysydd eu hunain, gan gynnwys y swm cyffredinol sydd ar gael a sicrhau bod y grantiau'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yr adran. Mae'r cystadlaethau'n cael eu cynnal drwy System E-dendro 'Jaggaer', sydd ar gael i unrhyw gyflenwr sydd wedi cofrestru. Cafodd cystadlaethau HMPPS eu hysbysebu gyda Clinks hefyd.

Er mwyn helpu i roi gwybod i ddarpar gynigwyr, bydd y ddogfen ddisgrifio sy'n cyd-fynd â phob hysbyseb yn nodi a fydd ystyriaethau Deddf yr Iaith Gymraeg yn berthnasol, a phryd. Pan gaiff ddyfarniad, ac os yw'n briodol, bydd derbynnydd y grant yn cael gwybod am ofynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder y disgwylir iddo gydymffurfio â hwy, gan gynnwys pan fydd Cynllun Iaith Gymraeg perthnasol y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn rhoi gofynion perthnasol Deddf yr Iaith Gymraeg ar waith.

Ar gyfer 2020-21, cafodd cyllideb grantiau Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi o £5.3m ei defnyddio i gefnogi parhad grantiau strategol a grantiau arloesi sy'n cyfrannu at nodau eang a blaenoriaethau penodol HMPPS. Mae'r rhaglen grantiau yn cael ei hysbysebu i bob corff yn y Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol (VCSE) - sef cyrff yn y Trydydd Sector - yng Nghymru a Lloegr.

Dyfarwyd cyllid i nifer o fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol i gefnogi nodau strategol, profi syniadau newydd ac arloesol, a datblygu capasiti mewn sefydliadau sydd â phrosiectau gan gynnwys:

- Gwasanaeth Radio'r Carchar (Prison Radio), ffynhonnell wybodaeth allweddol i droseddwyr ynghylch materion sy'n effeithio arnynt;
- Ymddiriedolaeth Koestler, sy'n annog gweithgarwch artistig ac yn codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol am gelf troseddwyr;
- Cymdeithas Genedlaethol Ymwelwyr Carchar Swyddogol, sy'n cefnogi ymwelwyr â charchardai i ddarparu gwasanaeth hanfodol i droseddwyr sydd heb gefnogaeth allanol;
- Carcharorion Dramor (Prisoners Abroad), sefydliad sy'n rhoi help llaw â'r broses o ailsefydlu troseddwyr sy'n dychwelyd i'r DU ar ôl bwrw dedfrydau dramor;
- Y Samariaid, sy'n darparu cymorth allweddol i garcharorion sydd eisiau lladd eu hunain ac sydd mewn perygl o niweidio eu hunain, ac sy'n cefnogi gwaith carchar mwy diogel mewn carchardai;
- Cyngor ar Bopeth, sy'n darparu cyngor a chymorth i ddiodefwyr camweinyddiad cyfiawnder.

Hysbysebodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ei Raglen Grant Arloesi Newydd ar gyfer 2020-22 ym mis Hydref 2019, gyda'r cyfle'n agored i bob mudiad gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Nododd y rhaglen un ar bymtheg o brosiectau newydd, a oedd i fod i ddechrau ar 1 Ebrill 2020 yn wreiddiol, ond sydd wedi cael eu gohirio oherwydd pandemig Covid-19. Mae'r rhan fwyaf bellach wedi dechrau, gyda rhai newidiadau yn

unol â chyfyngiadau Covid-19. O'r un ar bymtheg o ddyfarniadau, nid oes yr un prosiect sy'n gweithredu'n benodol mewn lleoliadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, er y bydd y rhai sydd derbyn grantiau wedi cael gwybod am ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg lle bo hynny'n briodol.

Darparwyd swm o £450k yn 2020/21 i ddarparu cronfa i gefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM sydd wedi bod yn ymateb yn uniongyrchol i'r gofynion gwahanol neu ychwanegol a gafodd eu creu gan Covid-19. Gweinyddwyd y gronfa gan Clinks, corff ymbarél uchel ei barch y sector, a dyfarnwyd cyfanswm o 76 o grantiau i amrywiaeth o sefydliadau i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau ar draws sbectrwm llawn meysydd gwasanaeth HMPPS yng Nghymru a Lloegr, gyda dau o'r grantiau hyn yn cael eu darparu yng Nghymru yn unig.

Mae cyllid grant yn parhau i fod ar gael i nifer o fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol ar sail tymor hwy i gefnogi'r nodau strategol ac i ddatblygu capasiti ar draws y sector. Bydd y gweithgarwch hwn a ariennir gan grantiau yn berthnasol i Gymru a Lloegr a, lle bo hynny'n rhesymol bosibl, bydd y rhai sy'n derbyn grantiau yn ceisio darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo angen. Mae yna hefyd siaradwr Cymraeg rhugl (ail iaith) o fewn Tîm Grantiau Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi yn y Pencadlys.

Ar gyfer 2020/21, mae'r tîm Polisi Dioddefwyr a Thystion wedi rhoi grantiau o £6.69m i dderbynwyr yng Nghymru, i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr troseddau. Mae hyn yn cynnwys cyllid brys a ddarparwyd mewn ymateb i Covid-19 a mwy o alw am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr.

Disgwylir i unrhyw sefydliad sy'n ymgeisio am grant ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys cyflenwi gwasanaethau i bobl yng Nghymru ymdrin yn eu ceisiadau, lle bo hynny'n briodol, â sut y bwriadant ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Yna bydd hyn yn cael ei gynnwys fel un o'r amodau cyllido. Mae cyllid grant hefyd yn parhau i fod ar gael i nifer o fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol ar sail tymor hwy i gefnogi'r nodau strategol ac i ddatblygu capasiti ar draws y sector. Bydd y gweithgarwch hwn a ariennir gan grantiau yn berthnasol i Gymru a Lloegr a, lle bo hynny'n rhesymol bosibl, bydd y rhai sy'n derbyn grantiau yn ceisio darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen. Mae yna hefyd siaradwr Cymraeg rhugl (ail iaith) o fewn Tîm Grantiau Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi yn y Pencadlys.

4. Gweithredu, monitro ac adrodd

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Polisiau, mentrau a gwasanaethau i fod yn gyson â'r ymrwymïadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg*
- b) *Grŵp Cydlynwyr y Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i ehangu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn o leiaf, gyda'r aelodau'n rhyngweithio'n rhithiol.*
- c) *Trefniadau yn eu lle i fonitro ac adrodd ar gynnydd cyrff y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a restrir yn Atodiad A, o ran gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder.*
- d) *Mae gan staff drefniadau yn eu lle i fonitro p'un a yw darparwyr gwasanaethau'n cydymffurfio â threfniadau iaith Gymraeg sydd wedi'u cynnwys mewn cytundebau contractau.*

Roedd Cydlynnydd Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Cynllun. Un elfen hollbwysig o'r rôl yw sicrhau bod ein Cynllun ni yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith yn briodol ar draws amrywiol feysydd busnes corfforaethol y Weinyddiaeth. Mae hynny'n cynnwys rhoi cyngor a chyfarwyddyd ac ymateb i geisiadau am wybodaeth neu roi eglurhad ynghylch polisi ac arferion y Weinyddiaeth

mewn perthynas â'r Gymraeg. Ni chafodd Cydlynnydd y Cynllun unrhyw gwynion ffurfiol ynghylch y modd y gweithredwyd Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2020-21.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i weithredu Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg ehangach o gysylltiadau sy'n gweithredu fel Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg ar gyfer ein holl feysydd busnes. Mae'r Grŵp yn cyfarfod yn ffisegol neu'n rhithiol, neu gymysgedd o'r ddau, ddwywaith y flwyddyn.

Mae cylch gwaith y grŵp yn cynnwys y canlynol:

- Canolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â chyflwyno ein Cynllun Iaith Gymraeg;
- Rhannu enghreifftiau o arferion gorau i helpu i godi ymwybyddiaeth a rhannu syniadau;
- Darparu fforwm i aelodau allu trafod a datrys materion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r Gymraeg;
- Rhoi cydgefnogaeth i Gydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder a helpu i lywio cyfeiriad y polisi Iaith Gymraeg a dulliau llywodraethu yn y dyfodol ar draws ein Hasiantaethau Gweithredol.

Mae'r aelodau'n defnyddio'r Grŵp i rannu gwybodaeth a syniadau er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau. Os oes pryderon neu gamddealltwriaeth ynghylch polisi ac ymarfer yr iaith Gymraeg, bydd y Cydlynwyr yn mynd ar ôl y rhain ar gyfer aelodau a staff perthnasol mewn modd cymesur er mwyn sicrhau datrysiad boddhaol.

Yn y cyfarfod ym mis Medi 2020, adroddodd Swyddog Cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg ar "Cau'r bwloch: 6^{ed} Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg."

Yng nghyfarfod mis Mawrth 2021, eglurodd Comisiynydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol dros faterion Cymreig ei rôl newydd.

Rydym wedi cael nifer o ychwanegiadau newydd a newidiadau i'r Grŵp yn ein cyfarfodydd, sy'n dangos bod cynnydd graddol yn parhau yn y diddordeb mewn materion Cymreig ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn unol ag arferion gorau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar weithio clyfar (ac yn enwedig yn ystod y pandemig), mae cynrychiolwyr naill ai wedi defnyddio fideo-gynadledda ar Teams neu wedi ffonio i mewn i gymryd rhan.

Rhwng cyfarfodydd, mae gan y Grŵp fforwm drafod rithiol *ad hoc* ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, i rannu cyngor rhwng cydweithwyr perthnasol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn enwedig ynghylch pryd y bydd angen gwasanaethau cyfieithu o bosibl.



© Hawlfraint y Goron 2021

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i, nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.